




Ein Haddewid

Adroddiad 2023/2024



ClwydAlyn

ClwydAlyn.co.uk/EinHaddewid

Sut yr Ydym
yn Gwneud
Pethau:



Ymddiriedaeth



Caredigrwydd



Gobaith



Contents

- | | | | |
|------|---------------------------------------|-------|--------------------------------------|
| 4-6 | Darparu Cartref Diogel Mewn Cyflwr Da | 11-12 | Gwrandu a Gweithredu ar eich Adborth |
| 7 | Darparu Cartref Fforddiadwy | 13-15 | Bod yn Agored a Didwyll |
| 8 | Rhoi Gwerth am Arian | 16-21 | Cynyddu Balchder yn ein Cymunedau |
| 9-10 | Rhoi Gwasanaeth Rhagorol | 22 | Rheoli Ein Busnes yn Dda |



Ein Haddewid yw ein siarter preswylwyr.

Fe wnaethom weithio gyda'r gwirfoddolwyr #Dylanwadwch a'n Arnom Ni Pwyllgor Preswylwyr i greu 'Ein Haddewid' sy'n nodi beth ddylai ein preswylwyr ei ddisgwyl gan ClwydAlyn.

Rydym yn defnyddio Ein Haddewid i fesur ein perfformiad, gyrru gwelliannau i'r gwasanaeth a'n cadw yn atebol i'n preswylwyr yn agored a didwyll.

Credwn y dylai materion y cartref fod yn fwy na dim ond pedair wal a tho. Mae Ein Haddewid yn nodi ein hymrwymiad i ddarparu gwasanaethau rhagorol trwy'r gwerthoedd craidd:

-  **Darparu Cartref Diogel Mewn Cyflwr Da**
-  **Gwrando a Gweithredu ar eich Adborth**
-  **Darparu Cartref Fforddiadwy**
-  **Bod yn Agored a Didwyll**
-  **Rhoi Gwerth am Arian**
-  **Cynyddu Balchder yn ein Cymunedau**
-  **Rhoi Gwasanaeth Rhagorol**
-  **Rheoli ein busnes**



Darparu Cartref Diogel Mewn Cyflwr Da

Sicrhau bod eich cartref yn ddiogel, yn saff ac yn cael ei gynnal a'i gadw yn dda.

Mae'n ofynnol i ni ymweld â chartrefi yn gyson i wirio eu bod yn bodloni'r holl ofynion diogelwch. Pan fyddwn dan 100% mae hyn oherwydd nad ydym wedi gallu cael mynediad i eiddo a gwneud y gwiriadau hyn.




o gartrefi gydag offer nwy â gwiriad diogelwch nwy, cyfredol wedi ei achredu.




o gartrefi sydd angen asesiad risg tân yn gyfredol ac yn cydymffurfio.



o gartrefi wedi cael gwiriadau diogelwch trydanol.



o'n preswylwyr yn fodlon ar ansawdd eu cartref.




o breswylwyr yn teimlo'n ddiogel a saff yn eu cartref.



o'r cartrefi wedi cyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru.

Gyda Safonau Ansawdd Tai Cymru 2 newydd yn dod erbyn 2034, rydym eisoes yn paratoui a gweithio gyda phreswylwyr i sicrhau ein bod yn barod at y newidiadau sy'n dechrau yn Ebrill 2025.

Gwelliannau i'r cartref



Buddsoddi yn y cartrefi presennol

Rydym wedi buddsoddi cyfanswm o 16.7 miliwn mewn gwella ein cartrefi. Rydym wedi canolbwyntio ar ddiweddaru ein cartrefi lleiaf effeithlon o ran ynni, gan wella amodau byw a fforddiadwydd ynni.

Ôl-osod ein cartrefi

Fel rhan o Raglen Ôl-osod Er Mwyn Optimeiddio (ORP), rydym wedi buddsoddi £1.7 miliwn i ddiweddaru cartrefi, gwella cartrefi a gwella'r rhai oedd fwyaf o'i angen. Roeddem yn gofalu ein bod yn meddwl beth oedd pob person ei angen wrth i ni gynllunio'r gwaith. Roedd y diweddariadau yma yn cynnwys;

- 47** cartref gyda phaneli solar PV
 - 73** o gartrefi newydd gyda batris PV
 - 5** gyda systemau gwresogi Is-goch NexGen
 - 20** o silindrau mixergy
 - 60** o gartrefi gyda Systemau Synhwyro Ynni ac Amgylchedd iOpt
 - 17** o gartrefi gyda diweddariadau goleuo ynni isel
 - 22** o gartrefi gyda gwelliannau i'r inswleiddiad
- The translation was in the o riginal file

Rydym yn Rhoi Cynnig ar Rywbeth Newydd

Yn hytrach na phympiau gwres neu fwyleri nwy, rydym wedi bod yn treialu systemau gwresogi Is-goch NexGen. Mae'r dechnoleg flaengar yn gosod system wresogi is-goch mewn haenau tenau o bapur leinio sydd wedyn yn cael eu gosod ar nenfydau ym mhob ystafell mewn cartref. Yn wahanol i system wresogi gonfensiynol, mae'r dechnoleg yn cynhesu gwrthrychau yn yr ystafell yn hytrach na'r aer i alluogi preswylwyr i deimlo'r gwres yn gyflymach ac arbed arian ar eu biliau ynni. *"Rwy'n meddwl ei fod yn newid popeth,"* ychwanegodd Mike. *"Mae'n wych. Mae'n cynhesu'r tŷ mor gyflym, ac mae mor gynnes - mae'r corneli oer wedi mynd yn llwyr."*



Buddsoddi mewn cartrefi newydd

Ers 2018 rydym wedi darparu 730 o gartrefi newydd ac rydym yn bwriadu ychwanegu 1,000 yn fwy erbyn 2027/28 - llawer gyda phwyslaes ar gynaliadwydd. Mae 162 o'n cartrefi newydd â chyfradd Effeithlonrwydd Ynni A, wedi eu dylunio i ostwng biliau ynni i breswylwyr. Symudodd un o breswylwyr Mart, Y Fali, Kelly, i'r datblygiad newydd yn 2024 a dywedodd: *"Rydym wedi cyffroi cymaint o gael symud i mewn; rwyf wrth fy modd hefo dyluniad a phatrwm y lle. Bydd byw yma yn gwneud gwahaniaeth mawr i ni o ran arbed ar filiau ynni, gan ein bod ni cynt yn talu £320 y mis am drydan a nwy."*

Effeithlonrwydd Ynni

Mae ein gweithgareddau ôl-osod eisoes yn gwneud gwahaniaeth gweladwy ym mherfformiad ynni ein cartrefi. Rydym yn defnyddio cyfraddau Tystysgrif Perfformiad Ynni (EPC) i olrhain pa mor effeithlon o ran ynni yw ein cartrefi, a dyma sut y mae pethau'n edrych ar y funud:

Cyfradd EPC cartrefi presennol	Cyfradd EPC cartrefi newydd
A – 9%	A – 91.06%
B – 19%	B – 8.38%
C – 35%	C – 0.56%
D – 14%	
E – 1%	



ClwydAlyn

Onnen a ClwydAlyn

Fe wnaethom ymuno â Cartrefi Conwy i ffurfio 'Onnen', sy'n gwmni sy'n helpu preswylwyr yn ein cartrefi presennol i ddefnyddio llai o ynni ac arbed arian. Mae hyn yn golygu ychwanegu pethau fel inswleiddiad, paneli solar a gwresogi gwell. Gyda'n gilydd rydym wedi cyflawni camau ôl-osod gwyrdd, yn cynnwys:



Tynnu dulliau inswleiddio sydd wedi methu o **31** o gartrefi i wella effeithlonrwydd ynni ymhellach.

Lleihau effaith tlodi tanwydd

Roeddem yn rhan o brosiect arloesol - Iechyd Cartrefi, Pobl, Bywydau a Chymunedau, a oedd yn bwriadu cynnig dull hollataidd sy'n cydnabod y cysylltiadau rhwng tlodi tanwydd, annhegwch iechyd y gallir ei osgoi a llesiant.

Rydym hefyd yn gweithio gydag arbenigwyr ynni eraill i gefnogi preswylwyr sy'n cael trafferth gyda biliau ynni uchel.

Fel rhan o'r gwaith hwn, mae Swyddogion Tai yn cefnogi preswylwyr gydag amrywiaeth o bryderon llesiant.

Yn 2023/24 fe wnaethom roi'r cymorth canlynol i breswylwyr:-

95 yn gysylltiedig â Thlodi Bwyd

•

24 yn gysylltiedig â Thlodi Tanwydd

•

93 yn gysylltiedig â chyflwr eiddo

•


101 yn gysylltiedig ag Iechyd a Llesiant preswylwyr

•

3 yn gysylltiedig â Chyflogaeth ac Addysg

•

109 wedi eu datrys yn uniongyrchol gan Swyddog Tai



Mae ein timau rheng flaen yn parhau i hyrwyddo a chefnogi preswylwyr i ymuno â'r cynllun Help U i'r rhai sy'n gymwys, sy'n lleihau tariff dŵr i breswylwyr ac hefyd yn rhoi cefnogaeth ar gyfer unrhyw ôlddyledion yng nghyswllt cyflenwad dŵr.



Darparu Cartref Fforddiadwy

Sicrhau bod eich cartref yn fforddiadwy a'ch cefnogi gyda chynghor am incwm a lles.

Rhent a Fforddiadwyedd

Rydym yn gweithio'n galed i sicrhau bod ein rhenti yn fforddiadwy i chi. Rydym yn gwrandao ar yr hyn sydd arnoch ei angen ac yn edrych ar eich incwm a'ch sefyllfa. Mae prisiau ein rhent yn deg ac rydym yn gweithio tuag at sicrhau bod rhenti yr un fath ar draws yr ardaloedd i gyd. Rydym yn gwneud hyn trwy weithio gyda phreswylwyr i weithredu 'Polisi Rhent Fforddiadwy'. Mae hyn yn golygu bod rhenti ar draws

yr holl gartrefi anghenion cyffredinol a chysgodol yn seiliedig ar y 'Model Rhent Byw' a ddatblygwyd gan Sefydliad Joseph Rowntree. Mae ein polisi yn sicrhau ein bod yn ystyried fforddiadwyedd wrth osod rhenti ac yn anelu tuag at sicrhau na fydd preswylwyr yn talu mwy na 28% o'u hincwm ar rent. Mae ein dull o osod rhent yn seiliedig ar fodel Rhent Byw - Sefydliad Joseph Rowntree, sy'n cynnwys fforddiadwyedd mewn unrhyw benderfyniadau gosod rhent.

108 o

breswylwyr newydd wedi eu croesawu i'n Gofal Ychwanegol

34

wedi eu croesawu i'n cartrefi grŵp

84 wedi

eu croesawu i gartrefi fforddiadwy

407

o bobl wedi eu cefnogi gan ein swyddogion ymyrraeth gynnar

98

O bobl wedi eu croesawu i'n gwasanaethau byw â chefnogaeth a digartrefedd

363

o breswylwyr newydd wedi eu croesawu i gartrefi anghenion cyffredinol a thai cysgodol

85% o'n

preswylwyr yn dweud bod eu rhent yn cynnig gwerth da am arian.

Ein Tîm Hawliau Lles a Swyddogion Ymyrraeth Gynnar wedi helpu 296 o breswylwyr i gael £1.2 miliwn o enillion ariannol - cyfartaledd o £4,000 y person.



296 o breswylwyr



£1.2 miliwn



£4,000

Canmoliaeth a dderbyniwyd gan breswylwyr ar ôl i Swyddog Tai ei gefnogi i wneud cais am ôl-daliad lwfans gwedd o £39K a dyfarniad parhaus.

"Diolch am bopeth yr ydych wedi ei wneud i mi a'm bechgyn, dwi ddim hyd yn oed yn eich adnabod a dim ond gwneud eich gwaith oeddech chi ond wnaethoch chi ddim gwneud i mi deimlo pwysau na phanig o gwbl hyd yn oed pan oeddwn yn y man isaf gyda'm rhent.

Roeddech chi bob amser yn rhoi dewisiadau i mi a chynghor ac ni wnaethoch i mi deimlo fy mod yn mynd i golli fy nghartref o gwbl.

"Allai ddim esbonio i chi beth mae hyn wedi ei wneud i mi a'm bechgyn. Erbyn hyn nid oes gennyf ôl-ddyled rhent na dyled arall ac ni wnes erioed feddwl y gallai ddigwydd yn fy mywyd. Rydych yn seren yn fy llygaid i ac yn wych yn yr hyn yr ydych yn ei wneud, felly diolch unwaith eto gennyf fi a'm bechgyn."



Rhoi Gwerth am Arian

Sicrhau bod tâl gwasanaeth yn deg ac yn cynnig gwerth am arian.

71%

o breswylwyr yn fodlon bod eu taliadau gwasanaeth yn rhoi gwerth am arian

Taliadau Gwasanaeth

Rydym am i'n preswylwyr fod yn hapus gyda'n gwasanaethau. Er mwyn gwneud pethau'n fwy clir, rydym wedi edrych ar faint yr ydym yn ei godi am wasanaethau. Fe wnaethom weithio gyda phreswylwyr i sicrhau bod ein taliadau gwasanaeth yn deg ac yn gysylltiedig â phrisiau rhent. Oherwydd hyn, bydd taliadau gwasanaeth tua 10% yn is yn 2024/25.

Mae ein tâl rheoli yn talu am bethau fel staff sy'n rheoli eich tai a chontractau glanhau a thrwsio. Mae hefyd yn talu cost anfon biliau ac ymdrin ag unrhyw broblemau. Mae gweddill eich tâl gwasanaeth yn mynd at gost wirioneddol y gwasanaethau hyn, fel glanhau neu drwsio pethau mewn ardaloedd a rennir. Oherwydd hyn rydym wedi gallu gostwng taliadau gwasanaeth mewn rhai o'n cynlluniau tai cysgodol.



Rydym wedi gweithio i gefnogi gostyngiad ar gyfartaledd o 10.63% mewn Tâl Gwasanaeth yn ein Cynlluniau Tai Cysgodol.

Sicrhau bod cyfrifon blynyddol yn cael eu darparu ar yr holl daliadau gwasanaeth amrywiol.

Bodloni ein hymrwymiad i gyfarfod Preswylwyr Cynlluniau Cysgodol yn flynyddol i drafod taliadau cyn iddynt gael eu gosod.

Wedi creu Gweithgor Tâl Gwasanaeth i ganolbwyntio ar y maes hwn o'r gwaith wrth symud ymlaen.

Datblygu Cytundeb Lefel Gwasanethth/llinell amser ar gyfer rheoli taliadau gwasanaeth yn flynyddol.



Rhoi Gwasanaeth Rhagorol

Darparu gwasanaethau rhagorol a rhoi gwybod i chi sut yr ydym yn perfformio ar gynnal a chadw hanfodol, gwaith trwsio a diogelwch.

Fe wnaethom gwblhau **2302** o arolygon bodlonrwydd cynnal a chadw y flwyddyn ddiwethaf yn dilyn gwaith cynnal a chadw arferol



86%

o breswylwyr yn fodlon ar ansawdd eu cartref.



9/10

o breswylwyr yn teimlo'n ddiogel a saff yn eu cartref.



100%

o waith trwsio argyfwng wedi eu cwblhau mewn 24 awr.



92%

o breswylwyr yn fodlon ar waith trwsio.



23,100

o waith cynnal a chadw a thrwsio o ddydd i ddydd wedi eu cwblhau.



Adborth preswylwyr am waith coed a gwaith saer

"Ni ellid bod wedi gwella. Roedd Aidy yn gwrtais, cyfeillgar a phroffesiynol, ac fe wnaeth esbonio beth yr oedd yn ei wneud a pham. Fe wnaeth weithio'n galed iawn - gwaith da iawn. Adolygiad 5 seren gennyf i."

Adborth gan breswylwyr am Baentio a Gorffen

"Roedd Pete ar amser, yn gyfeillgar a chwrtais, ac fe wnaeth esbonio'r gwaith mewn llaw. Nid oedd dim yn ormod iddo. Roedd yn broffesiynol, trylwyr ac fe wnaeth lanhau'n dda ar ôl gorffen paentio. 5 seren gennyf i."

Adborth gan breswylwyr am wasanaeth Nwy

"Cefais wasanaeth i'r bwyler. Roedd y peiriannydd yn broffesiynol iawn, chwrtais, cyfeillgar a dymunol. Roeddwn yn hapus iawn â'r gwasanaeth-allwn i ddim bod wedi gofyn am well gwasanaeth."



93%

o apwyntiadau wedi digwydd yn ôl y bwriad.*



89%

wedi eu cwblhau ar yr ymweliad cyntaf heb fod angen unrhyw waith dilynol

* Pan na fydd apwyntiadau yn digwydd yn ôl y bwriad, gall fod am nifer o resymau, fel: methu cael mynediad i'r cartref, galwadau argyfwng, ail-drefnu apwyntiadau.

Canolfan Gyswllt

54,995 o alwadau wedi eu derbyn.

89.2% o alwadau wedi eu hateb.

Fe wnaethom ateb **49,057** o alwadau y llynedd

53% o'n galwadau yn cael eu hateb mewn llai na 40 eiliad.

Wyddech chi y gallwch ofyn am alwad yn ôl?

Fe wnawn ni gadw eich lle yn y ciw a'ch ffonio yn ôl cyn gynted ag y bydd eich tro chi, fel nad oes raid i chi aros ar y ffôn.




690 o bobl wedi cofrestru ar gyfer **FYClwydAlyn**, ein porth preswylwyr yn ystod 2023/2024. Dyma'r ffordd fwyaf poblogaidd o dalu rhent.

Amseroedd Aros Galwyr

Weithiau ni fyddwn yn gallu ateb pob galwad yn syth. Tra byddwch yn aros, rydym yn rhoi gwybod i chi y gallwch chi ddefnyddio'r porth preswylwyr, sy'n gyflymach ar gyfer rhai pethau.

Gall tywydd gwael, fel stormydd a llifogydd, achosi i lawer mwy o bobl ein ffonio ar yr un pryd, gan ei gwneud yn anodd ateb pawb yn gyflym. Mae'r digwyddiadau yma hefyd yn creu gwaith i'n timau cynnal a chadw.

Rydym yn awr yn treulio ychydig mwy o amser ar bob galwad i sicrhau ein bod yn gwneud pethau'n iawn y tro cyntaf. Mae hyn wedi gwneud i'r amser aros fod yn hwy, ond mae'n golygu ein bod yn gallu datrys problemau yn gyflymach ar ôl i ni ymweld â'ch cartref.



"Yr wythnos ddiwethaf roedd arnaf angen galw'r Ganolfan Gyswllt ac fe wnes i siarad â dyn bonheddig o'r enw Jake, roedd yn gwrtais iawn a pharod i helpu, ac rwy'n credu ei fod wedi mynd tu hwnt i'r filltir ychwanegol i'm helpu gyda'm ymholiad. Staff fel y fo yw'r hyn y mae'r cwmni yn ei werthfawrogi, ond o safbwynt preswylwr, roedd yn enghraifft wych o'r gwasanaethau y mae'r cwmni yn eu cynnig. Diolch i chi am fod â staff fel fo i helpu preswylwyr fel fi."

"Fe wnaeth tenant alw hefyd i ganmol Aled yn y Ganolfan Gyswllt am ei wasanaeth gwych, yn ogystal â'r gwaith cyflym ac effeithlon a wnaed gan James Elson. Fe wnaeth argraff fawr ar Mrs Hughes."



Gwrandu a Gweithredu ar eich Adborth

Sicrhau bod eich llais yn cael ei glywed. Byddwn yn gwrandu ar adborth, ac ymdrin â chwynion yn gyflym.

Llais y Preswylwyr



ClwydAlyn

Arolygon Bodlonrwydd Tenantiaid
a Phreswylwyr (STAR).

79%

o breswylwyr yn dweud eu bod yn ymddiried yn ClwydAlyn.




76%

o breswylwyr yn fodlon bod ClwydAlyn yn gwrandu ar eu barn ac yn gweithredu arni.



68%

o breswylwyr yn fodlon bod ClwydAlyn yn rhoi llais iddyn nhw o ran sut y mae gwasanaethau'n cael eu rheoli.



70%

o breswylwyr yn fodlon â chyfleoedd yn ClwydAlyn i gyfrannu at lunio penderfyniadau.



71%

o breswylwyr yn fodlon ar y ffordd y mae ClwydAlyn yn ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol.



#Dylanwadwch

Arweinir ein rhaglen #Dylanwadwch gan Swyddog Cynnwys Preswylwyr penodol ac eleni, gwelwyd cynnydd o 13% yn yr aelodaeth, gan ein dwyn i 167 o breswylwyr. Rydym wedi gweld sut y mae cynnwys preswylwyr yn gwneud gwahaniaeth, ac rydym yn annog adborth ar bob cyfle. Mae'n ein helpu i wella gwasanaethau ac ymdrin ag unrhyw bryderon yn uniongyrchol.



Os hoffech chi gymryd rhan, ffoniwch **Laura McKibbin** ar **07880431004**, neu gallwch anfon e-bost at: **InfluenceUs@ClwydAlyn.co.uk**

167

o Dylanwadwyr

7

Arolwg

436

O arolygon wedi eu cwblhau

12

Sesiwn gofyn unrhyw beth

Cwynion a chanmoliaeth

Rydym yn gweld pob cwyn fel adborth defnyddiol. Maen nhw'n rhoi cyfle i ni ddysgu a gwella'r gwasanaethau yr ydym yn eu cynnig. Rydym bob amser yn rhoi gwybod i breswylwyr sut y mae eu hadborth wedi ein helpu i wneud pethau yn well. Mae preswylwyr, gwirfoddolwyr a staff uwch ar ein Panel Cwynion. Mae'r panel yn siarad yn agored am y prif broblemau sy'n wynebu pobl. Rydym hefyd yn gweithio gyda grŵp annibynnol i ofyn i breswylwyr a ydyn nhw'n hapus â'r ffordd yr ydym wedi ymdrin â'u cwynion. Rydym yn cadw golwg ar y canlyniadau ac, os byddwn yn gweld problemau, rydym yn eu hychwanegu at ein Cynllun Gweithredu Cwynion. Mae'r cynllun yn ein helpu i ddal i wella. Rydym yn rhannu'r newyddion diweddaraf gyda'r Panel Cwynion a'r Pwyllgor Preswylwyr.

Yn ystod y 12 mis diwethaf:

71 o gwynion wedi eu datrys ar y cam cyntaf.

19 o gwynion wedi eu datrys ar yr ail gam.

11 o gwynion wedi eu hystyried gan yr Ombwdsmon.

DIM cwynion wedi eu cadarnhau gan yr Ombwdsmon

54 nodyn o ganmoliaeth annibynnol wedi eu derbyn yn canmol ein staff a'r gwasanaethau.

2,302 nodyn canmol trwy adborth i arolygon gan denantiaid am y gwasanaeth a dderbyniwyd.



Gallwch fynd i'n gwefan i ddweud wrthym beth yr ydych yn ei feddwl neu i gwyno. Ewch i www.clwydalyn.co.uk/complimentscomplaints. Rydym yn ei gwneud yn hawdd i chi rannu eich barn.

"Hoffwn ganmol pawb sy'n gweithio yn ClwydAlyn, am y cydymdeimlad a ddangoswyd i helpu'r rhai ohonom sydd ag angen. Rwyf fi, tenant diolchgar, yn gwerthfawrogi hyn, gan eich bod wedi rhoi cartref i mi y gallaf fod yn falch ohono ac yr wyf yn teimlo'n hapus ac wedi setlo ynddo."

Diolch am yr holl waith caled yr ydych yn ei wneud, i sicrhau bod y rhai ohonom sy'n cyd-weithredu yn cadw to uwch ein pennau. Mae'n rhaid bod eich swydd yn ddigon caled wrth ymdrin â chwynion yn ddyddiol, felly rwy'n gobeithio bod llythyrau canmol fel hwn, yn lleihau'r baich mewn rhyw ffordd. Rwyf wrth fy modd gyda'm cartref yma."

Llythyr gan Breswylwr ClwydAlyn



Lorraine
Rheolwr Llywodraethu a Chwynion

Fy ngwaith i yw sicrhau bod eich cwynion yn cael eu trin mewn ffordd gyson a theg. Rwyf wedi ymroi i sicrhau ein bod yn ymateb yn effeithiol i unrhyw bryderon neu gwynion all fod gennych am ein gwasanaethau. Rwyf hefyd yn gweithio i ddynodi unrhyw wersi a ddysgwyd neu welliannau i'r gwasanaeth o'ch adborth.

"Hoffwn ganmol pawb sy'n gweithio yn ClwydAlyn" am y cydymdeimlad a ddangoswyd i helpu'r rhai ohonom sydd ag angen. Rwyf fi, tenant diolchgar, yn gwerthfawrogi hyn, gan eich bod wedi rhoi cartref i mi y gallaf fod yn falch ohono ac yr wyf yn teimlo'n hapus ac wedi setlo ynddo"

Diolch am yr holl waith caled yr ydych yn ei wneud" i sicrhau bod y rhai ohonom sy'n cyd-weithredu yn cadw to uwch ein pennau. Mae'n rhaid bod eich swydd yn ddigon caled wrth ymdrin â chwynion yn ddyddiol" felly rwy'n gobeithio bod llythyrau canmol fel hwn" yn lleihau'r baich mewn rhyw ffordd" Rwyf wrth fy modd gyda'm cartref yma"

Llythyr gan Breswylwr ClwydAlyn

Llythyr gan Breswylwr ClwydAlyn




Bod yn Agored a Didwyl

Gwario arian yn ddoeth a dweud wrthyhch sut yr ydym yn ei wario fel eich bod yn gallu ein dal i gyfrif.

Cyllid 2023/24

Sut y gwariwyd yr holl incwm a gasglwyd y flwyddyn ddiwethaf yn 2023/24:



Costau Rheoli

Dyma gostau rhedeg ClwydAlyn. Mae hyn yn cynnwys pethau fel talu am gyllid, TG, cyfathrebu, staff tai a threuliau sylfaenol rhedeg ein sefydliad.

Costau Gwasanaeth

Mae'r rhain yn talu am gostau gwasanaethau i'n cartrefi. Mae'n cynnwys pethau fel glanhau, garddio a thalu am ddŵr a thrydan. Rydym hefyd yn talu am bethau fel systemau mynediad, giatiau a lifftiau. Mae'n cynnwys costau staff am lanhawyr, nyrsys a gweithwyr sy'n helpu yn ein gwasanaethau byw â chefnogaeth.

Cynnal a Chadw o Ddydd i Ddydd

Dyma gost y gwaith trwsio yr ydym yn ei wneud pan fydd pethau'n torri.

Gwelliannau Mawr

Prosiectau mawr, tymor hir yw'r rhain i wneud ein cartrefi'n well. Mae hyn yn cynnwys pethau fel gosod ceginau newydd, ystafelloedd ymolchi, ffenestri neu ddrysau, a gwneud cartrefi yn fwy effeithlon o ran ynni.

Ad-daliadau Morgais

Dyma'r arian yr ydym yn ei dalu yn ôl ar fenthyciadau yr ydym yn eu defnyddio i adeiladu neu brynu cartrefi.

Cartrefi gwag

Mae gennym rai tai sy'n wag bob amser, rydym yn eu galw yn foids. Gall hyn fod am lawer o resymau: fel faint o waith sydd ei angen i'w gwneud yn gartrefi o safon uchel ar gyfer y preswylwyr nesaf. Rydym am i bobl symud i'n cartrefi gwag yn gyflym, felly rydym yn gweithio gyda phartneriaid i ddod o hyd i rywun sy'n chwilio am gartref, paratoi eu tenantiaeth a sicrhau bod y cartref yn barod ac yn ddiogel iddyn nhw symud iddo mor gyflym â phosibl.

Yn anffodus, rydym yn colli arian oherwydd cartrefi gwag oherwydd na allwn gasglu unrhyw rent tra bod y cartref yn wag. Y rhent a gollwyd yn 23/24 oedd £1.44m (2.8%) sy'n uwch na'n targed o £1.15m (2.3%). Mae llawer o resymau pam y gallai cartref fod yn wag am fwy o amser, efallai ein bod wedi penderfynu peidio â'i ailosod gan fod gennym gynlluniau eraill ar ei

Roedd dyledion drwg yn £319k yn ystod 23/24

gyfer (ailddatblygu), neu efallai bod angen gwaith mawr arno i'w gael i'r safon cywir. Mae rhai o'r rhesymau am yr oedi tu hwnt i'n rheolaeth, yn neilltuoel yn ein gwasanaethau Gofal a Gofal Ychwanegol.

Dyledion Drwg

Dyledion drwg yw rhent neu daliadau gwasanaeth na allem eu casglu. Roedd y swm hwn yn £319k yn 2023/24. Fe wnaethom gasglu 95.81% o'r rhent eleni, ond 96% yw ein targed. Fe wnaethom groesawu 687 o breswylwyr newydd y llynedd. Fe lanwyd y lleoedd preswyl canlynol:

84 O dai fforddiadwy

108 Gofal Ychwanegol

363 Anghenion Cyffredinol

34 Cartrefi Grŵp

98 Byw â Chefnogaeth

Fe wnaethom ddarparu 180 o gartrefi newydd effeithlon o ran ynni

Cost Ein Cartrefi


Cwblhawyd **162** o gartrefi newydd gyda chyfradd EPC A. Gall cartrefi gyda chyfradd EPC A olygu gostyngiad o hyd at hanner cost biliau gwresogi mewn cymhariaeth â chartrefi â chyfradd B.

Cyfanswm cost cyfartalog un o'n cartrefi newydd yw tua **£270,000**.

Yn 2023/24, fe wnaethom adeiladu **180** o gartrefi.

Allwedd

- Nifer o gartrefi newydd
- Nifer o dai a brynwyd ar y farchnad
- Nifer o'r cartrefi presennol a addaswyd
- Nifer o gartrefi presennol a drosglwyddwyd i ni



1. Ynys Môn – 130 o gartrefi newydd, 2 eiddo wedi eu prynu ar y farchnad = **Cyfanswm 132**

2. Conwy – 12 o gartrefi presennol wedi eu trosglwyddo gan Rosa Hovey Housing Trust, 1 eiddo wedi ei brynu ar y farchnad = **Cyfanswm 13**

3. Sir Ddinbych – 8 o gartrefi newydd, 1 eiddo newydd wedi ei brynu ar y farchnad, 1 addasiad = **Cyfanswm 10**

4. Sir y Fflint – 12 o gartrefi newydd, 6 eiddo newydd wedi ei brynu ar y farchnad = **Cyfanswm 18**

5. Wrecsam – 7 cartref newydd wedi eu prynu gan ddatblygwr = **Cyfanswm 7**

Rydym yn 4ydd yn y Deyrnas Unedig am adeiladu cartrefi cynaliadwy (EPCA) yn ôl arolwg Inside Housing.

Yn ein datblygiadau Hen Ysgol Y Bont a Glasdir roedd, 70% o'r preswylwyr yn fodlon iawn ar eu cartrefi newydd.

Nifer o gartrefi yn ôl categori

Math o Gartref	Nifer	% O'r Stoc
Tai Anghenion Cyffredinol	4255	65.74%
Rhent Canolradd	203	3.14%
Rhent Fforddiadwy	107	1.65%
Tai â Chefnogaeth	545	8.42%
Tai i bobl hŷn	514	7.94%
Perchenogaeth cartref cost isel	718	11.10%
Cartrefi gofal	130	2.01%

Symudodd Hayley i'r tŷ gyda'i theulu ym mis Mawrth:

"O, dwi wedi cyffroi yn ddigon siŵr. Dwi'n dal i fethu credu, rwy'n symud o fflat dwy ystafell wely gyda mynediad cymunedol a dim gardd, ni allwch gymharu allwch chi. Rwy'n symud i gartref tair ystafell wely hardd gyda phopeth yn cael ei wneud i mi, gardd wych ac mae o'n hollol wych, anhygoel. Mae hyn yn mynd i wneud cymaint o wahaniaeth i ni i gyd; y plant oherwydd eu hanghenion meddygol, mae arnyn nhw angen eu hystafell eu hunain, sydd ganddyn nhw erbyn hyn, rydym yn agos at deulu i gael cefnogaeth, ac allai ddim diolch digon i chi i"



Eich Cartref Eco

Rydym yn credu mewn grymuso preswylwyr i fyw'n dda yn eu cartrefi. Dyna pam ein bod wedi llunio partneriaeth gyda Cymru Gynnes, gan ein caniatáu i gefnogi preswylwyr trwy gydol eu tenantiaeth, gan gynnig cyfeirio pan fydd angen.

Mae ein tîm cynnal a chadw yn ymarferol, gan roi cymorth mewn cartrefi a dangos yn weithredol sut i ddefnyddio systemau amrywiol, ac rydym hefyd wedi creu fideos gwresogi y gellir cael mynediad atynt ar borth y preswylwyr.

Gallwch weld y rhain yma

Rydym yn cydweithio gyda phreswylwyr i greu gwybodaeth sy'n eu helpu i fyw'n dda, gan gynnwys cyfarwyddyd ar wneud y defnydd gorau o dechnoleg werdd yn ein cartrefi carbon isel. Gyda'r preswylwyr rydym wedi adolygu ein dull o reoli tamprwydd a llwydni, gan gynnig cyfarwyddyd rhagweithiol i leihau'r problemau hyn.

Gallwch weld hyn ar ein gwefan yma - <https://www.clwydalyn.co.uk/damp-and-mould/>



ClwydAlyn





Cynyddu Balchder yn ein Cymunedau

Eich cefnogi i fyw'n dda yn eich cartref, fel eich bod yn gallu byw'r bywyd yr ydych yn ei ddewis mewn cymuned ddiogel a chysylltiedig.

Cefnogi Preswylwyr

Rydym yn rhoi ein cymunedau yn gyntaf. Mae ein Timau Tai yn gweithio mewn ardaloedd bach, gyda phob swyddog yn gofalu am tua 250 o gartrefi. Fel hyn, gallant ddod i adnabod y bobl sy'n byw yno, deall beth sydd arnyn nhw ei angen a rhoi'r gefnogaeth gywir pan fydd ei hangen.

83% o breswylwyr yn fodlon bod eu hardal yn lle da i fyw.

Fe wnaethom groesawu **687** o breswylwyr newydd y llynedd.

Dim troi allan i ddigartrefedd.

Darparu cefnogaeth fwyd uniongyrchol i **95** o breswylwyr mewn argyfwng. ↓



Darparu cefnogaeth iechyd a lles uniongyrchol i **101** o breswylwyr mewn argyfwng.

Darparu cefnogaeth uniongyrchol i **93** o breswylwyr mewn argyfwng i gynnal eu cartref.

Cyfrannodd y staff **74** o anrhegion Nadolig i breswylwyr mewn angen.

Rhoddwyd **£3,400** mewn talebau bwyd i 128 o aelwydydd at y Nadolig.

Darparwyd cefnogaeth tanwydd uniongyrchol i **24** o breswylwyr mewn argyfwng.

£25k →
£100k

Fe wnaethom gynyddu ein Cronfa Preswylwyr o £25k i £100k y flwyddyn, gan gefnogi 149 o breswylwyr a chyfanswm gwariant ar ddiwedd y flwyddyn o £52,652. Roedd ein cefnogaeth yn cynnwys:

- Darpariaeth fwyd argyfwng
- Help gyda nwy a thrydan
- Rheoli plâu
- Dodrefn hanfodol
- Cefnogaeth gydag ôl-ddyledion rhent
- Clirio eiddo
- Yswiriant cynnwys



Prosiectau Cymunedol

Helpu pobl ifanc i gael gwaith

Rydym yn angerddol am helpu pobl ifanc i roi hwb i'w gyrfa. Trwy interniaethau a rhaglenni fel We Mind the Gap (WMTG) a Project SEARCH, rydym yn cefnogi myfyrwyr ac oedolion ifanc i gael gwaith a symud i'r gweithle.

Ein Heffaith yn 2023/24:

We Mind the Gap:

Wedi cefnogi pedwar o bobl ifanc, gydag un yn awr yn Gynllunydd Cynnal a Chadw llawn-amser.

Project SEARCH:

Wedi cefnogi saith o bobl ifanc.

Rhaglen WMTG Wrecsam:

saith wedi graddio, tri ohonynt mewn swyddi llawn-amser erbyn hyn.

Rhaglen WMTG Sir y Fflint:

naw wedi graddio, chwech yn gyflogedig erbyn hyn, dau yn parhau mewn addysg ag un yn gwirfoddoli.

Dechrau newydd yn Nhŷ Norfolk

Mae Tŷ Norfolk yn un o'n prosiectau byw â chefnogaeth sy'n rhoi llety diogel a chefnogaeth i bobl sydd wedi mynd yn ddigartref neu angen help arbenigol.

Cychwynnodd taith preswylwr A yn Nhŷ Norfolk yn 2019 ar ôl blwyddyn yn y cartref oherwydd trafferthion gyda chamdddefnyddio sylweddau a thrawma oedd heb ei ddatrys. Er gwaethaf heriau cychwynnol, fe gafodd gysur a chefnogaeth yn Nhŷ Norfolk. Ar ôl cyfnod fe wnaeth ymdrin â'i broblemau iechyd meddwl, cael cwnsela, a goresgyn caethiwed i sylweddau yn llwyddiannus. Gydag arweiniad y staff, cafodd gyswllt â gwasanaethau meddygol ac iechyd meddwl, gan arwain at ddiagnosis o ADHD a gwnaeth gynnydd sylweddol ar reoli ei gyflyrau. Trwy gymryd rhan mewn bowllo, daeth Preswylwr A o hyd i sefydlogrwydd a phwrpas mewn bod yn sobor a chymryd rhan mewn twrnameintiau.

Ar ôl ambell gam yn ôl, fe wnaeth sicrhau fflat gyda chefnogaeth y staff ac fe wnaeth y staff barhau i gynorthwyo Preswylwr A, gan bwysleisio dull oedd yn rhoi pwyslais ar yr unigolyn i fodloni ei anghenion cymhleth wrth symud ymlaen.



Dod â saith mlynedd o ddigartrefedd i ben yn Nhŷ Golau

Mae Preswylwr B wedi bod yn hysbys i ClwydAllyn ers dros saith mlynedd oherwydd ei fod yn mynd i mewn ac allan o ddigartrefedd. Yn ystod y pandemig, roedd yn defnyddio ein gwasanaethau yn Tŷ Golau. Er mwyn osgoi diflastod, roedd Preswylwr B yn helpu'r staff i lanhau er mwyn mynd yn ôl i batrwm dyddiol.

Am hynny talodd y staff aelodaeth campfa yn fisol er mwyn helpu i gynnal y patrwm dyddiol. Cynigiwyd lleoliad gwaith i Breswylwr B yn un o ddatblygiadau ClwydAllyn gan y contractwr ar sail rhan-amser. Mae Preswylwr B wedi bod yn gwneud yn dda iawn yn ei swydd rhan-amser gydag adborth cadarnhaol gan y contractiwr. Mae'n gobeithio cynyddu'r oriau i lawn-amser yn y dyfodol a symud i lety annibynnol.

Dyddiau Cymunedol Preswylwyr

Rydym yn griw cyfeillgar a chymdeithasol! Yn ystod haf 2023 fe wnaethom gynnal chwech o ddyddiau cymunedol preswylwyr ar draws y canlynol:

**Ynys Môn
Conwy
Sir y Fflint**

**Y Trallwng
Wrecsam
Sir Ddinbych**

Roedd y digwyddiadau hyn yn cynnwys amrywiaeth o weithgareddau, gan gynnwys teganau gwynt, celf a chrefft, gemau hwyliog a llawer mwy. Croesawodd y digwyddiadau am ddim ar draws pob sir dros 270 o deuluoedd, gan roi bwyd am ddim, diodydd a thalebau hufen iâ ar gyfer y fan hufen iâ.

Yn ychwanegol, derbyniodd mwy na 70 o deuluoedd gefnogaeth gan asiantaethau allanol fel Cymru Gynnes, Undeb Credyd Cambrian, We Mind the Gap, a'r Gwasanaethau Tân a Heddlu Lleol.





Netty Net

It was a lovely day , I think everyone had lots of fun xxx

Like Reply 8w



Allan Cole

Looks good

Like Reply 8w



Tina Ollie Edwards

Thank you for a lovely afternoon xx

Like Reply 8w



Toni Badger

Great few hours. Thankyou x

Like Reply 8w



Kirsty Leanne Edwards

Thank you for a lovely day 😊😊

Like Reply 8w



Ann Jenkins

It was a great day my two Grandsons had a fantastic time today

Like Reply 8w



Claire Lennox

Thank you for a great day we had a blast 😊 xx

Like Reply 7w



Clo Grundy

Well done everyone! X

Like Reply 8w



CAMBRIAN
SAVINGS & LOANS
Supporting Communities



WARM WALES
CYMRU GYNNES



HEDDLU
GOGLEDD CYMRU
NORTH WALES
POLICE



Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service



FEDRA'i: cymorth iechyd meddwl

Rydym yn falch o fod yn gartref i ganolfan gymunedol FEDRA'i yn y Rhyl, mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Mae FEDRA'i yn darparu lle croesawus, diogel i unrhyw un sydd angen cefnogaeth iechyd meddwl neu lesiant. Mae ar agor saith diwrnod yr wythnos, ac mae'n cynnig cefnogaeth emosiynol, cyngor a chyfeirio at wasanaethau arbenigol. Dros y flwyddyn ddiwethaf mae'r ganolfan wedi cefnogi 1,403 o bobl, ac rydym wedi gweld yr effaith anhygoel y mae wedi ei gael ar fywydau unigolion.

Rhannodd Cleient A wybodaeth am y ffordd y gwnaeth FEDRA'i newid ei fywyd:

"A minnau wedi rhoi fyny ar fywyd o'r blaen, nid yw dweud na fyddwn i yma heddiw oni bai fy mod wedi cysylltu â nhw yn orddweud. Fe wnaeth FEDRA'i fy nghynorthwyo o ran llesiant ac iechyd meddwl oherwydd i mi ddioddef sawl profedigaeth mewn cyfnod byr. Mae'r bobl yn FEDRA'i yn griw anhygoel, maen nhw wedi fy helpu mewn mwy o ffyrdd nag oeddwn yn meddwl bod arnaf eu hangen nac yn eu haeddu."



747

Mae'r ganolfan wedi cefnogi dros 747 o bobl

88% 

Mae 88% o gleientiaid wedi cofnodi eu bod yn teimlo'n well am eu hiechyd meddwl a'u llesiant.



65%

nid yw 65% o bobl yn teimlo'n unig bellach

1874 

Roedd 1874 o ymyraethau



1,403

Yn y flwyddyn ddiwethaf mae'r ganolfan wedi cefnogi 1,403 o bobl

Dywedodd Cleient B, a gollodd briod a mab, wrthym:

"Roeddwn yn byw ar fy mhen fy hun ac yn cael trafferth ymgysylltu â phobl a dod o hyd i gefnogaeth gan fy mod yn teimlo nad oeddwn yn ei haeddu. Cynigiodd FEDRA'i gefnogaeth emosiynol a hefyd fy nghyfeirio at wasanaeth i rai mewn profedigaeth. Gweithiais gyda'r staff i weithredu peirianweithiau ymdopi ac rwyf yn awr yn ôl yn y gwaith, yn ymgysylltu â grwpiau gweithgareddau ac rwyf hyd yn oed wedi dechrau peintio eto ac yn mwynhau bywyd."

Llwyddiannau Allweddol

Fe wnaethom ennill Safonau Ansawdd Gwasanaeth Cymorth i Ferched Cymru am ein gwasanaethau yn ymdrin â cham-drin domestig. Ac rydym wedi integreiddio arferion ar sail trawma yn ein holl wasanaethau.



Rydym yn agor Tŷ Nos, cyfleuster newydd yn Wrecsam fydd yn cefnogi 20 o bobl ddigartref.



Fe wnaethom ennill sawl tendr i ehangu gwasanaethau byw â chefnogaeth ar draws Gogledd Cymru.



Arweiniodd ClwydAlyn ymateb Gogledd Cymru i argyfwng Wcraïn, gan helpu dros 100 o bobl i ddod o hyd i gartref parhaol yn y Deyrnas Unedig.

Nifer o bobl a gefnogwyd mewn Gwasanaeth Byw â Chefnogaeth (Ffigyrau CAWA yn cynnwys Lloches ac yn y Gymuned) - **1267**

Plant a gefnogwyd dan 18 oed - **412**

Y nifer o Breswylwyr sydd wedi symud ymlaen i gartrefi parhaol - **63**

Y nifer o Breswylwyr sydd wedi cofrestru ar gyfer coleg/prifysgol - **25**

Nifer yr ymweliadau ag ysgolion i gefnogi gyda chyfweliadau, gweithdai neu ffeiriau gyrfa - **103**

Y nifer o Breswylwyr sydd wedi dechrau ar gyrsiau/prentisiaethau - **26**

Nifer y Preswylwyr a aeth i Waith llawn-amser - **11**

Bwydo'n Dda

CAN COOK | WELL-FED

Fe wnaethom weithio gyda Bwydo'n Dda i helpu i roi:

84,902 O brydau gyda chymhorthdal yn cynnwys y canlynol:

60,990 O Brydau Parod **23,912** Pecyn rysâit

276 O bobl wedi eu hyfforddi i goginio yn y gymuned ac wedi derbyn coginiwr araf am ddim.

2208 O becynnau rysâit **8832** O brydau

50 O gymunedau wedi eu cynnwys ar draws Gogledd Cymru

Fe wnaethom hefyd lansio ein gwasanaeth CanolfanBrydau yng Ngorffennaf 2023 ac agor 10 Canolfan yng Ngogledd Cymru.





Rheoli Ein Busnes yn Dda

Sicrhau ein bod yn cael ein rhedeg yn dda ac yn gynaliadwy yn ariannol fel ein bod yn gallu parhau i daclo tlodi.

Cynaliadwyedd Ariannol

Mae Llywodraeth Cymru yn gwirio ein gwaith yn flynyddol. Rydym yn anfon cynllun atynt i ddangos sut yr ydym yn gwneud a sut y gallwn wella. Mae ClwydAlyn yn sefydliad nid-er-elw. Mae hyn yn golygu nad ydym yn gwneud arian i berchenogion na rhanddeiliaid. Rydym yn defnyddio ein harian i helpu ein cymunedau yn lle hynny.



Newyddion da! Nid ydym wedi cael unrhyw ganfyddiadau rheoleiddiol anffafriol yn ystod y 12 mis diwethaf.



Rydym wedi ennill cyfradd 'Werdd' – yr uchaf posibl – ar gyfer rheolaeth ariannol a llywodraethu.



Elw gweithredu (arian yn weddill)

Hyd yn oed gyda heriau fel costau byw a chwyddiant, fe wnaethom £4.4m o elw (7.6%) o warged yn 2023/24.

Ond mae arian dros ben yn beth da. Mae'r arian ychwanegol hwn yn ein helpu i wella mwy o gartrefi i bobl. Mae hefyd yn dangos i'n benthycwyr beth yr ydym yn ei wneud yn dda, fel ein bod yn gallu benthycu arian ar gost is.

Mewn gwirionedd mae gennym gredyd 'A' gan S&P Global Ratings!

Fe wnaethom hefyd:

- ✓ Gadw cyfradd gredyd 'A Stable' gyda Standard and Poor's (hyn yn dda).
- ✓ Cadw cyfradd A3 gan Moody's (cyfradd na ofynnwyd amdani) (mae hyn hefyd yn dda).
- ✓ Dim benthycu ychwanegol yn 23/24



Darparu Cartref Diogel
Mewn Cyflwr Da



Darparu cartref
fforddiadwy



Rhoi gwerth
am arian



Rhoi Gwasanaeth
Rhagorol



Gwrandu a gweithredu ar
eich adborth



Bod yn agored a didwyll



Cynyddu balchder yn ein
cymunedau



Rheoli ein busnes
yn dda



#Dylanwadwch... yw wyneb cynnwys preswylwyr a ffordd hawdd o roi gwybod i ni beth yw eich barn am ein gwasanaethau.



ClwydAllyn

ClwydAllyn.co.uk/EinHaddewid



@ClwydAllyn

Ein Haddewid

Am gyfrannu a rhannu eich barn? Byddem wrth ein boddau yn clywed genych! Gallwch gysylltu â ni trwy anfon e-bost at influenceus@clwydalyn.co.uk, cysylltu â ni trwy gyfryngau cymdeithasol, neu ffonio 0800 183 5757.